# CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
## Cadeirydd: Gethin Pyrs
Nos Lun Ionawr 9fed 2023 am 7.30 y.h.

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y gadair gan yr Is-gadeirydd Alun Owen.

## Cofnodion - (104)

Daeth Cyng. Arron Wynne ynghyd a Chynghorwyr o Lanfihangel G.M, Llangwm a Cerrigydrudion i drafod a chael mwy o wybodaeth ar y ffordd ymlaen o gadw'r Llyfrgell yn agored yng Ngherrig. Gofynnwyd i'r pedwar Cyngor Cymuned a oedd yn bosib cyfrannu tuag gynnal y Llyfrgell am y flwyddyn nesaf. Diolchwyd iddo am ei bresenoldeb hefyd i'r Cynghorwyr am ei presenoldeb.

1. **Ymddiheuriadau**:
2. **Presennol**: Cyng. Gari B Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Cyng. Sirol Gwennol Ellis ac Enid Williams Clerc.
3. **Còd Ymddygiad**: Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Tachwedd:** derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan GBJ gydag ER yn eilio.
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
   - 5.1. CBSC Llyfrgell Uwchaled – ar ôl clywed beth oedd gan y Cyng. Arron Wynne i ddweud cynigiodd GR gydag ER yn eilio a phawb yn gytûn ein bod yn cefnogi'r cais ac yn cyfrannu tuag at gadw'r Llyfrgell yn agored am y flwyddyn nesaf.
   - 5.2. Hwyluswyr Tai Gwledig – disgwyl yn ôl am ddyddiad i'r Diwrnod Agored.
6. **Gohebiaeth:**
   - 6.1. Kickstart Conwy Wledig – cyfarfod wedi ei ohirio disgwyl dyddiad newydd.
   - 6.2. CBSC – wedi derbyn 3ydd taliad o'r Precept £1533.00.
7. **Ffurflen Monitro:**
   Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn
8. **Mantolen Banc:**
   Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn.
9. **Cyllideb a Precept 2023-24:**
   Edrychwyd ac ail osodwyd y Gyllideb am y flwyddyn ariannol nesa a chytunwyd codi'r Precept £200.00 i **£4,800.00.** Ar ôl trafodaeth cynigiodd GR gyda GBJ yn eilio pawb yn gytûn i gyfrannu **£500.00** tuag at gadw'r Llyfrgell yn Uwchaled yn agored am y 12 mis nesaf.
10. **Talu Anfonebau:**
    - 10.1. CBSC – Sgip Gymunedol – cynigiodd ER gyda GR yn eilio talu'r anfoneb o £240.00 + TAW £48.00 = **£288.00** gyda siec rhif **100378** (137)
    - 10.2. Cradur.com – cynigiodd GBJ gydag ER yn eilio talu'r anfoneb o **£40.00** gyda siec rhif **100379 (**S55)
    - 10.3. Costau'r Clerc am 4 mis o Awst i Dachwedd – cynigiodd ER gyda GBJ yn eilio talu'r anfoneb **o £82.56** gyda siec rhif **100380** (150)
    - 10.4. Canolfan Pentrefoelas – cynigiodd GBJ gydag ER yn eilio talu'r anfoneb o **£40.00** gyda siec rhif **100381(133)**
11. **Ceisiadau Cynllunio:**
    - 11.1. Cyfeirnod 0/50082
      Safle Penrhyn, Garn, Pentrefoelas
      Y cais wedi ei dynnu'n ôl.
    - 11.2. Cyfeirnod 0/50249
      Safle Plas Iolyn, Rhydlydan, Pentrefoelas
      Cynllun Storfa Gwrtaith Sych a Chladdfa Silwair Arfaethedig
      Ni chafwyd sylw na gwrthwynebiad i'r cais.
12. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwennol Ellis** – Dywedodd fod y car du wedi mynd o'r maes parcio top erbyn hun ond bod 'Camper Fan' wedi gadael yno rwan. Roedd am ddod i sylw'r cyngor fod cais am lamp stryd yn y maes parcio top.
13. **Unrhyw fater arall:**
    - 13. 1. Dwr yn sefyll ar y ffordd wrth Llwyn Onn hefyd wrth Maes Gwyn.
14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf Chwefror 6ed 2023** (dyddiad i'w gadarnhau)